# Boccia

Grŵp oedran y gweithgaredd: 5 - 7

## Gweithgaredd: **Llygad ar y llinell**

### Sut mae chwarae:

- Gosodwch gadeiriau yn y neuadd (dim mwy na 6 chadair).
- Bydd y disgyblion yn dewis cadair i eistedd arni. Sylwch: I chwarae boccia, mae angen eistedd i lawr drwy’r amser.
- Ewch ati i ymarfer taflu/rholio’r peli boccia yn eich tro. Rhowch gynnig ar daflu/rholio’r bêl dan yr ysgwydd, dros yr ysgwydd, gyda’ch traed neu gan ddefnyddio’r ramp os bydd angen.
- Rhowch farcwyr ar y llawr a gwneud llinell ar draws canol y neuadd.
- Bydd y disgyblion yn cymryd eu tro i daflu/rholio eu peli ar y llawr o flaen y llinell, gan adael i’r bêl rolio mor agos â phosibl at y llinell yng nghanol y neuadd.



Yn arwain at

## Gweithgaredd: **Taro’r targed**

### Sut mae chwarae:


- Gosodwch sawl targed ar draws llawr y neuadd.
- Cymerwch eich tro i ddewis y targed rydych chi am daflu/rholio eich pêl ato. Ewch i’ch safle a thaflu/rholio’r bêl i’r targed y gwnaethoch chi ei ddewis, neu mor agos â phosib ato.

### Offer:

- Ardal chwarae fawr
- Cadeiriau
- Peli boccia, dewis o beli neu fagiau ffa
- Ramp (os bydd angen)
- Marcwyr, conau, basgedi neu rwydi (ar gyfer targedau neu rwystrau)

# Defnyddio STEP:

| | Haws | Anoddach |
|---|---|---|
| **Gofod** *(Space)* | Defnyddiwch ofod cul/ llai fel bod y targedau'n agosach. | Defnyddiwch ofod llydan/mwy fel bod y targedau ymhellach i ffwrdd. |
| **Tasg** *(Task)* | Defnyddiwch eich braich/ troed gryfaf i rolio'r bêl Boccia i'r targed. | Defnyddiwch eich braich / troed wannaf i rolio'r bêl Boccia i'r targed. |
| **Offer** *(Equipment)* | Defnyddiwch dargedau mwy. | Defnyddiwch dargedau llai. |
| **Pobl** *(People)* | Chwaraewch y gweithgaredd ar eich pen eich hun i'w wneud yn haws. | Chwaraewch y gweithgaredd fel tîm ac yn dactegol i'w wneud yn anoddach. |



## Ystyriaethau penodol:

**Disgyblion sy'n ddall ac yn rhannol ddall:**

- Defnyddiwch gonau neu farcwyr sy'n hawdd eu gweld.
- Gofynnwch i gyfaill neu dywysydd glapio wrth ymyl y targed.

**Disgyblion sydd ag anableddau dysgu:**

- Cyflwynwch yr adrannau un ar y tro.
- Dylech eu hannog a'u hatgoffa yn ystod y gweithgaredd.
- Defnyddiwch gyfarwyddiadau clir a chryno.
- Parwch y disgyblion hyn gyda rhywun sy'n gwneud iddyn nhw deimlo'n gyfforddus ac sy'n gallu eu helpu i gymryd rhan yn y dasg a chanolbwyntio arni.

**Disgyblion byddar neu drwm eu clyw:**

- Dangoswch sut i wneud y gweithgaredd - cyn dechrau arni a phan fydd y cyfarwyddiadau'n newid.
- Defnyddiwch arwyddion gweledol, fel chwifio baner neu fib i ddangos pryd mae tro'r disgybl i fynd.

**Disgyblion sydd â nam corfforol:**

- Rhowch ramp i helpu'r disgybl i daflu neu rolio'r bêl.
- Gallant wisgo pwyntydd ar eu pen a'i ddefnyddio i ryddhau'r bêl i lawr y ramp.

Nid yw'r holl atebion ar gael yn y canllawiau uchod, ac mae'n bosibl nad yw rhai o ofynion penodol y disgyblion yn cael sylw. Rydyn ni'n eich annog i ymgysylltu â'r holl ddisgyblion, sylwi ar eu hanghenion, a chyfathrebu'n effeithiol, gan ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn o ddarparu cymorth wedi'i deilwra pan fydd angen..

STEP © 2002,
Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuenctid. Cedwir pob hawl.

BBC TEACH | activity alliance disability inclusion sport | YOUTH SPORT TRUST